

3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau
Cwsmer: 0303 444 5000
e-mail: GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk

At bartïon â buddiant, partïon
statudol a phersonau eraill a
wahoddir i'r cyfarfod rhagarweiniol

Eich Cyf:
Ein Cyf: EN010072
Dyddiad: 16 Mawrth 2016

Annwyl Syr/Madam

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) a Rheolau Cynllunio Seilwaith
(Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheol 8 (fel y'i diwygiwyd)**

**Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Limited am Orchymyn yn Rhoi
Caniatâd Datblygu ar gyfer Cynllun Storfa Bwmp Glyn Rhonwy.**

Amserlen a gweithdrefn archwilio

Ysgrifennaf atoch i ddweud wrthyich am y penderfyniadau gweithdrefnol yn dilyn y Cyfarfod Rhagarweiniol a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2016; y gwrandawriad Llawr Agored a gynhaliwyd hefyd ar 8 Mawrth 2016; a'r gwrandawriad Mater Penodol ynghylch y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016 ym Mynydd Gwefru Electric Mountain, Llanberis, Gwynedd, LL55 4UR. Mae'r llythyr hwn hefyd yn rhoi amserlen yr archwiliad a dolen i'r cwestiynau cychwynnol rwyf yn eu gofyn yn yr archwiliad a materion eraill.

Mae'r paragraff isod yn esbonio bod y llythyr hwn ar gael yn Saesneg ar gais:

This letter is available in English on our website and a copy can be provided on request:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3762131>

Gallwch ddod o hyd i'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn, gan gynnwys cofnod o'r Cyfarfod Rhagarweiniol a'r recordiad sain a wnaed yn y cyfarfod, drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/glyn-rhonwy-pumped-storage/>

Gallwch ddod o hyd i nodyn cyngor ynghylch sut i gymryd rhan yn yr archwiliad ar dudalen we'r Arolygiaeth Gynllunio neu gallwch wneud cais amdano drwy'r rheolwr achos.

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/advice-note-8.5.pdf>

Penderfyniadau gweithdrefnol

Rwyf wedi gwneud fy mhenderfyniadau gweithdrefnol ynghylch y modd y bydd y cynnig yn cael ei archwilio. Mae'r amserlen archwilio yn **Atodiad B** yn cynnwys y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth benodol. **Mae'r amserlen archwilio yn disodli'r amserlen archwilio ddrafft a gafodd ei chynnwys gyda'r llythyr ynghylch Rheol 6 dyddiedig 9 Chwefror 2016.** Mae'r amserlen archwilio ddrafft, yn cynnwys newidiadau a wnaed ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, wedi'i nodi yn **Atodiad B**. Tynnir eich sylw at gyflwyniad Dyddiad Cau 6 newydd ar ddydd Gwener 24 Mehefin 2016 er mwyn caniatáu ar gyfer ystyried sylwadau ar gyfer dyddiad cau 5 wrth baratoi'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft terfynol (os na chynhelir y gwrandawiadau ar eitemau 18 a 19) ac ail-rifo canlyniadol y dyddiadau cau canlynol. Mae'r amserlen archwilio wedi ceisio darparu ar gyfer ceisiadau a wnaed yn y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Os byddaf yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i amrywio'r amserlen (a nodir yn **Atodiad B**), byddaf yn hysbysu'r partion â buddiant a 'phersonau eraill' a wahoddir i'r Cyfarfod Rhagarweiniol (rhifau cyfeirnod yn dechrau gydag OP) ac yn cyhoeddi'r newidiadau ar ein gwefan.

Dyddiadau cau ar gyfer derbyn sylwadau

Mae'n bwysig nodi, os na fyddwch yn cyflwyno'r wybodaeth erbyn y dyddiadau a nodir yn yr amserlen, mae'n bosibl y byddaf yn ei hanwybyddu.

Dylai unrhyw sylwadau sydd dros 1,500 o eiriau ddod â chrynodeb yn ogystal. Ni ddylai'r crynodeb fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol. Dylai'r crynodeb osod allan ffeithiau allweddol y sylwadau ysgrifenedig a rhaid iddo fod yn gynrychioliadol o'r sylw a wneir.

Daw'r holl ddyddiadau cau i rym ar 12 canol dydd ar y dyddiad a nodir. Gofynnaf i bartion â buddiant anfon, lle bo hynny'n ymarferol, copiau electronig o'u sylwadau fel atodiadau e-bost at GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk ar neu cyn y dyddiad cau perthnasol. Dylai atodiadau electronig gael eu labelu'n glir â theitl pwnc ac ni ddylent fod yn fwy na 12MB ar gyfer pob neges e-bost. **Nid yw'n dderbyniol darparu dolenni i wefannau lle gellir gweld eich sylwadau**

neu dystiolaeth. Rhaid i bob dogfen, wedi iddynt gael eu derbyn gennyf i'r archwiliad, fod ar gael i'w gweld yn llawn ar ein gwefan. Anogir sylwadau amserol cyn y dyddiadau cau a bennir yn yr amserlen. Os yw'n well gan bartïon â buddiant gyflwyno sylwadau ar ffurf copi caled drwy'r post, cofiwch sicrhau eu bod yn cyrraedd erbyn y dyddiad cau er mwyn bod yn sicr y byddant yn cael eu hystyried.

Os na dderbyniwn geisiadau ysgrifenedig am wrandawiadau llawr agored neu wrandawiadau caffaeliad gorfodol erbyn y dyddiad cau a bennir yn **Atodiad B**, nid yw'n ofynnol i mi i gynnal unrhyw wrandawiadau o'r fath. Er hynny, mae'n bosibl y byddaf yn dewis gwneud hynny.

Bydd amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawiad a gadarnheir, a phwnc unrhyw Wrandawiad Mater Penodol, yn cael eu cyhoeddi'n ysgrifenedig i'r holl bartïon â buddiant cofrestredig sy'n rhoi o leiaf 21 diwrnod o rybudd. Darperir agenda'u ar y wefan o leiaf saith diwrnod cyn unrhyw wrandawiad a gadarnheir.

Isod rwyf wedi esbonio'n fwy manwl rhai o'r sylwadau a geisir yn yr amserlen, er gwybodaeth i chi; fodd bynnag, cyfeiriwch at **Atodiad B** i weld yr holl ddyddiadau cau ar gyfer y cynnig hwn.

Y Cylch Cyntaf o Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio

Rwyf wedi penderfynu gofyn nifer o gwestiynau ysgrifenedig. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan erbyn hyn a gellir cael mynediad iddynt drwy'r ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3772905>

Os ydych yn dymuno derbyn hysbysiad trwy e-bost pan fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi, gallwch gofrestru ar wefan y prosiect er mwyn gwneud hynny.

Mae'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r cwestiynau hyn wedi'i restru yn yr amserlen archwilio yn **Atodiad B**.

Datganiadau o Dir Cyffredin ac Adroddiadau ar yr Effaith Leol

Yn fy llythyr ynghylch Rheol 6 dyddiedig 9 Chwefror 2016, gofynnais am Ddatganiadau o Dir Cyffredin. Nawr, rwy'n gwahodd yn ffurfiol cyflwyniad Datganiadau o Dir Cyffredin wedi'u cwblhau, ac unrhyw Ddatganiadau drafft, erbyn y dyddiad cau a restrir yn yr amserlen archwilio yn **Atodiad B**.

Gwahoddir awdurdodau lleol a ddiffinnir yn a56A DC 2008 i gyflwyno adroddiadau ar yr effaith leol erbyn y dyddiad cau a nodir yn **Atodiad B**.

Sylwadau ysgrifenedig

Hefyd rwy'n gwahodd bob parti â buddiant i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar sylwadau perthnasol a gyflwynwyd eisoes erbyn y dyddiad cau a nodir yn **Atodiad B**.

Nid oes ffurf ragnodedig ar gyfer sylwadau ysgrifenedig. Mae sylwadau ysgrifenedig yn gallu ymdrin ag unrhyw fater sy'n berthnasol. Nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r materion a osodir allan yn fy Asesiad Cychwynnol o Brif Faterion a nodir yn Atodiad C i fy llythyr dyddiedig 9 Chwefror 2016, ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r cwestiynau a ofynnir gennyf. Dalier sylw: o dan Reol 10(4) Rheolau'r Weithdrefn Archwilio, rhaid i unrhyw berson, ac eithrio'r ymgeisydd, sy'n cyflwyno sylwadau ysgrifenedig, nodi yn eu sylwadau ysgrifenedig y rhannau hynny o'r cynnig sy'n berthnasol i'w sylwadau y maent yn cytuno â nhw, a'r rhannau hynny nad ydynt yn cytuno â nhw, a rhaid iddynt ddatgan y rhesymau dros anghytundeb o'r fath.

Yn ogystal, yn unol â 'Planning Act 2008 (PA 2008): Guidance for the examination of applications for development consent' (Mawrth 2013) <http://bit.ly/1Bf8qFY> yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, dylai cyfranogwyr ddarparu, gyda'u datganiadau ysgrifenedig, 'y data, y fethodoleg a'r tybiaethau a ddefnyddir i gefnogi eu sylwadau'.

Hysbysiad o ddymuniad i fynychu gwrandawriad

Rwyf nawr yn gofyn am hysbysiadau gan -

(a) unrhyw barti â buddiant sy'n dymuno cael eu clywed mewn gwrandawriad llawr agored ar nos Lun 16 Mai 2016;

(b) unrhyw berson yr effeithir arnynt sy'n dymuno cyflwyno sylwadau llafar mewn gwrandawriad caffael gorfodol ar brynhawn dydd Mercher 18 Mai 2016; a

Rhaid i'r hysbysiadau hyn gael eu derbyn erbyn y dyddiad cau a nodir yn **Atodiad B**.

Os bydd parti â buddiant yn dymuno cyflwyno sylwadau llafar mewn gwrandawriad llawr agored neu wrandawriad mater penodol, dylent nodi pa bynciau y maent yn dymuno eu trafod yn y gwrandawriad. Yn yr un modd, dylai unrhyw berson yr effeithir arnynt sy'n dymuno cyflwyno sylwadau llafar mewn gwrandawriad caffael gorfodol nodi'n glir y lleiniau o dir y maent yn dymuno eu trafod a'r materion y maent yn dymuno eu trafod yn y gwrandawriad.

Gweithdrefn mewn gwrandawriadau a hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawriadau

Mae'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiadau wedi'i gosod allan yn Rheol 14 y Rheolau Gweithdrefn Archwilio <http://bit.ly/1wLTj8E>. Rhaid i unrhyw sylwadau llafar fod yn seiliedig naill ai ar y sylwadau perthnasol neu'r sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan y person sy'n gwneud y sylwadau llafar neu y gwneir y sylwadau llafar ar eu rhan. Fi fydd yn gyfrifol am holi ar lafar y person sy'n rhoi tystiolaeth, ond tynnir eich sylw at Reol 14(5) y Rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol i groesholi rhwng partïon.

Bydd fy archwiliad yn cael ei gynnal yn bennaf drwy broses ysgrifenedig, a byddaf yn penderfynu a fydd angen gwrandawriad ynghylch mater neu bwnc penodol. Nid yw'r penderfyniad yn gysylltiedig â'm barn ynghylch pa mor berthnasol neu bwysig yw'r mater neu bwnc.

Os hoffech wneud cyfraniadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y gwrandawriad, dylech roi hysbysiad i ni o'ch dymuniad i wneud hyn, gan fydd cyfieithydd ar gael.

Archwiliadau safle

Rwyf wedi cynnal (a byddaf yn parhau i gynnal) archwiliadau safle di-gwmni ar adegau sy'n gyfleus i mi.

Rwyf yn dymuno sicrhau y byddaf wedi ymweld â'r holl leoedd y mae partïon â buddiant yn fwyaf awyddus i mi ymweld â nhw, a byddaf yn ystyried, fel y nodir yn yr amserlen archwilio yn **Atodiad B**, unrhyw geisiadau i ymweld â safleoedd eraill. Rhaid i enwebiadau ar gyfer lleoliadau ychwanegol i'w harchwilio ddod i law erbyn y dyddiad cau. Rhaid i chi nodi'r rheswm dros yr enwebiad ac a fydd yn bosibl i mi gynnal archwiliad di-gwmni (ac os na, y rheswm dros hynny). Dylech fod yn ymwybodol nad wyf yn gallu cynnal archwiliadau di-gwmni ar dir preifat neu lle mae'n rhaid dilyn mesurau arbennig o ran diogelwch.

Sylwch nad yw archwiliad safle gyda chwmni yn gyfle i wneud unrhyw sylwadau llafar ar y cynnig. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddaf yn gwahodd cyfranogwyr i amlygu nodweddion penodol neu safleoedd o ddiddordeb. Er mae'n bosibl y bydd cyfle i nifer fach o bartïon â buddiant fynychu ymweliad safle gyda chwmni, mae'n debygol y bydd angen cyfyngu ar bresenoldeb oherwydd rhesymau logistaidd a rhesymau diogelwch.

Rheoliadau Aseidiadau Cynefinoedd

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, er mwyn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol fel yr Awdurdod Cymwys, rhaid i wybodaeth benodol gael ei darparu a rhaid cynnal ymgynghoriad yn ystod yr archwiliad. Rhestrir y dyddiadau cau yn **Atodiad B**.

Dyfarnu costau

Dylech fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddyfarnu costau yn erbyn partïon sy'n ymddwyn yn afresymol.

Er mwyn deall yr hyn y mae 'ymddygiad afresymol' yn ei olygu yng nghydestun archwiliad o dan DC 2008, mae'n bosibl y bydd o gymorth i chi ddarllen canllawiau'r Llywodraeth: 'Awards of costs: examinations of applications for development consent orders' (Gorffennaf 2013), sydd ar gael ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (<http://bit.ly/1zV1wSq>).

Hysbysiadau yn y dyfodol

Os ydych yn barti â buddiant (cyfeirnod yn dechrau â 100 neu GRPS-AFP) byddwch yn parhau i dderbyn gohebiaeth gan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghylch yr archwiliad drwy gydol y broses.

Os ydych wedi derbyn y llythyr hwn oherwydd fe'ch gwahoddwyd i fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol, ond nad ydych yn barti â buddiant (cyfeirnod yn dechrau ag OP) **ni fyddwch** yn derbyn unrhyw ohebiaeth bellach oddi wrthym yn ymwneud â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, gallwch fynd i dudalen berthnasol y prosiect ar ein gwefan er mwyn parhau i gael gwybod am gynnydd yr archwiliad i'r cynnig.

Os ydych yn ymgynghorai statudol neu'n awdurdod lleol heb gyfrifoldeb uniongyrchol yn ardal y datblygiad a gynigir, ac nad ydych wedi gwneud sylwadau perthnasol (rhif cyfeirnod yn dechrau â GRPS-SP), dylech roi gwybod i'r rheolwr achos os ydych yn dymuno bod yn barti cofrestredig erbyn **13 Ebrill 2016. Ni fydd ymgynghoreion statudol nad ydynt wedi gwneud sylwadau perthnasol ac nad ydynt yn rhoi gwybod i'r rheolwr achos am eu dymuniad i fod yn barti â buddiant yn derbyn unrhyw ohebiaeth bellach.**

Os byddaf angen rhagor o wybodaeth neu sylwadau ysgrifenedig (cais Rheol 17) ar y dyddiadau a nodir yn Atodiad B, bydd fy nghais yn cael ei anfon at y personau hynny'n unig y mae'r cais yn berthnasol iddynt yn fy marn i; fodd bynnag, caiff hyn ei gyhoeddi ar dudalen prosiect Glyn Rhonwy ar ein gwefan.

Rheoli Gwybodaeth

Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio ymrwymiad i dryloywder gwybodaeth. Felly, ar ein gwefan, gallwch ddod o hyd i'r holl wybodaeth a gyflwynir ar gyfer y prosiect hwn (os caiff ei derbyn) ynghyd â chofnod o'r cyngor y mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi'i roi, yn ogystal ag enw'r person neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Mae preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall wedi'i ddiogelu yn unol â'n Siarter Gwybodaeth.

Yr eiddoch yn gywir

Stuart Cowperthwaite

Stuart Cowperthwaite
Awdurdod Archwilio

Atodiadau:

- A. Argaeledd sylwadau a dogfennau cais
- B. Amserlen ar gyfer archwilio'r cynnig
- C. Y cylch cyntaf o gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfwerth â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a'ch cyngor proffesiynol eich hun fel y bo'r angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Argaeledd sylwadau perthnasol a dogfennau'r cais

Mae sylwadau perthnasol a holl ddogfennau'r cais ar gael ar ein gwefan:
<http://infrastructure.planningportal.gov.uk/projects/wales/glyn-rhonwy-pumped-storage/>

Mae'r dogfennau ar gael hefyd ar gyfer eu harchwilio a'u copïo'n electronig yn:

Llyfrgell Caernarfon

Lôn Pafiliwn
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AS

Oriau agor:	Dydd Llun	9.30 am – 7.00pm
	Dydd Mawrth	9.30 am – 7.00pm
	Dydd Mercher	9.30 am – 1.00pm
	Dydd Iau	9.30 am – 7.00pm
	Dydd Gwener	9.30 am – 7.00pm
	Dydd Sadwrn	9.30 am – 1.00pm
	Dydd Sul	AR GAU

Costau copïo:	A4 (du a gwyn)	10 c
	A4 (lliw)	50 c
	A3 (du a gwyn)	20 c
	A3 (lliw)	£1

Cyngor Gwynedd

Pencadlys
Stryd y Castell
Caernarfon
LL55 1SE

Oriau agor:	Dydd Llun	9.00 am – 5.00 pm
	Dydd Mawrth	9.00 am – 5.00 pm
	Dydd Mercher	9.00 am – 5.00 pm
	Dydd Iau	9.00 am – 5.00 pm
	Dydd Gwener	9.00 am – 5.00 pm
	Dydd Sadwrn	9.00 am – 5.00 pm
	Dydd Sul	AR GAU

Costau copïo:	A4 (du a gwyn)	10 c
	A4 (lliw)	50 c
	A3 (du a gwyn)	20 c
	A3 (lliw)	£1

Llyfrgell Llanberis

Ffordd Capel Coch

Llanberis
LL55 4SH

Oriau agor:	Dydd Llun	AR GAU
	Dydd Mawrth	2.00 pm – 6.00 pm
	Dydd Mercher	AR GAU
	Dydd Iau	10.00 am – 12.00 pm 1.00 pm – 5.00 pm
	Dydd Gwener	2.00 pm – 6.00 pm
	Dydd Sadwrn	AR GAU
	Dydd Sul	AR GAU
	Costau copïo:	A4 (du a gwyn)
	A4 (lliw)	50 c

Amserlen ar gyfer archwilio'r cais

Cynhelir archwiliad yr Awdurdod Archwilio (AA) o'r cais ar ffurf ystyried sylwadau ysgrifenedig ynghylch y cais. Hefyd bydd yr AA yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir ar lafar yn y gwrandawladau. Mae'r AA o dan ddyletswydd i **gwblhau'r** archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Eitem	Materion	Dyddiadau Priodol
1.	Cyfarfod Rhagarweiniol	Dydd Mawrth 8 Mawrth 2016 (9.30 am i 12.30 pm)
2.	Gwrandawriad llawr agored	Dydd Mawrth 8 Mawrth 2016 (1.00 pm)
3.	Gwrandawriad mater penodol mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft	Dydd Mercher 9 Mawrth 2016
4.	Yr AA yn cyhoeddi: <ul style="list-style-type: none"> • Amserlen archwilio wedi'i diweddarau • Cwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr AA 	Dydd Mercher 16 Mawrth 2016
5.	Dyddiad Cau 1 Dyddiad cau ar gyfer cyfleu'r canlynol i'r AA: <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau ôl-wrandawriad gan gynnwys unrhyw grynodedb ysgrifenedig o achos a wnaed ar lafar mewn gwrandawriad ac unrhyw ddogfennau/diwygiadau a geisir gan yr AA • Matricsau sgrinio drafft yr ymgeisydd yn crynhoi'r effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd fel y gofynnir yn Atodiad E • Sylwadau ar unrhyw sylwadau a chyflwyniadau ychwanegol a dderbynnir cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol • Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (Rheolau'r Archwiliad) 	12 hanner dydd Dydd Mercher 30 Mawrth 2016

<p>6.</p>	<p>Dyddiad Cau 2</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer cyfleu'r canlynol i'r AA:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar sylwadau perthnasol • Crynodebau o'r holl sylwadau perthnasol sydd dros 1,500 gair • Sylwadau ar fatricsau sgrinio drafft yr ymgeisydd yn crynhoi'r effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd • Sylwadau Ysgrifenedig gan bob parti â buddiant. Dylai pob parti gyflwyno eu hachos ysgrifenedig llawn a thystiolaeth ategol ar y cam hwn, gan y dylai unrhyw sylwadau i'w clywed mewn gwrandawriad fod yn seiliedig ar gynnwys sylwadau perthnasol neu ysgrifenedig. • Crynodebau o'r holl sylwadau ysgrifenedig sydd dros 1,500 gair • Adroddiadau ar yr Effaith Leol gan unrhyw awdurdodau lleol • Ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr AA • Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr ymgeisydd • Datganiadau o Dir Cyffredin • Sylwadau ar ddogfennau ôl-wrandawriad • Ymatebion i sylwadau ar unrhyw sylwadau a chyflwyniadau ychwanegol a dderbynnir cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawriad caffaeliad gorfodol • Hysbysiad o ddymuniad i wneud sylwadau llafar mewn unrhyw wrandawriadau mater penodol pellach • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawriad llawr agored pellach • Sylwadau mewn perthynas â lleoliadau i'w gweld ar y safle neu yn yr ardal gyfagos sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i'r AA yn ystod archwiliadau safle di-gwmni pellach <p><i>Dalier sylw:</i> Mae'r AA wedi cynnal archwiliadau safle di-gwmni eisoes, a gellir dod o hyd i fanyllion y rhain ar ein gwefan: http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3528248.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau yn ymwneud â lleoliadau i'w gweld ar y safle neu yn yr ardal gyfagos sy'n cael eu hystyried i fod yn berthnasol i'r AA yn ystod archwiliad safle gyda chwmni r mwyn deall yn well y sylwadau a wnaed neu i weld tir a buddiannau lle nad oes cyfle i gael mynediad cyhoeddus • Hysbysiadau gan bartion statudol, neu awdurdod lleol heb gyfrifoldeb uniongyrchol yn ardal y datblygiad a gynigir, eu bod yn dymuno cael eu hystyried yn barti â buddiant • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a geisir gan yr AA ac a dderbynnir cyn Dyddiad Cau 1 • Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA o dan Reol 17 	<p>12 hanner dydd</p> <p>Dydd Mercher 13 Ebrill 2016</p>
-----------	---	--

	Rheolau'r Archwiliad	
7.	Yr AA yn cyhoeddi: <ul style="list-style-type: none"> Hysbysiad o ddyddiad, amser a lleoliad gwrandawiadau mater penodol pellach, gwrandawriad llawr agored (os oes angen) a gwrandawriad caffaeliad gorfodol (os oes angen) 	Dydd Llun 18 Ebrill 2016
8.	Dyddiad Cau 3 Dyddiad cau ar gyfer cyfleu'r canlynol i'r AA: <ul style="list-style-type: none"> Sylwadau ar sylwadau ysgrifenedig Ymatebion i sylwadau ar sylwadau perthnasol Sylwadau ar asesiadau o effaith leol Sylwadau ar ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr AA Sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr ymgeisydd Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a geisir gan yr AA ac a dderbynnir cyn Dyddiad Cau 2 Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA o dan Reol 17 Rheolau'r Archwiliad 	12 hanner dydd Dydd Mercher 27 Ebrill 2016
9.	Amser a neilltuir ar gyfer gwrandawriad llawr agored (os oes angen)	Dydd Llun 16 Mai (Gyda'r hwyr)
10.	Amser a neilltuir ar gyfer gwrandawriad(au) mater penodol	Dydd Mawrth 17 Mai 2016
11.	Amser a neilltuir ar gyfer gwrandawriad(au) mater penodol	Dydd Mercher 18 Mai 2016 (Bore)
12.	Amser a neilltuir ar gyfer gwrandawriad(au) caffaeliad gorfodol (os oes angen)	Dydd Mercher 18 Mai 2016 (Prynhawn)
13.	Amser a neilltuir ar gyfer archwiliad safle gyda chwmni (os oes angen)	Dydd Iau 19 Mai 2016
14.	Dyddiad Cau 4 Dyddiad cau ar gyfer cyfleu'r canlynol i'r AA: <ul style="list-style-type: none"> Dogfennau ôl-wrandawriad gan gynnwys unrhyw grynodedb ysgrifenedig o achos a wnaed ar lafar mewn unrhyw wrandawriad ac unrhyw ddogfennau/diwygiadau a geisir gan yr AA Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr ymgeisydd 	12 hanner dydd Dydd Iau 26 Mai 2016

	<ul style="list-style-type: none"> Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a geisir gan yr AA ac a dderbynnir cyn Dyddiad Cau 3 Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA o dan Reol 17 Rheolau'r Archwiliad 	
15.	<p>Yr AA yn cyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ail gwestiynau ysgrifenedig yr AA (os oes angen) Hysbysiad o ddyddiad, amser a lleoliad ar gyfer gwrandawriad mater penodol (os oes angen) a gwrandawriad caffaeliad gorfodol (os oes angen) 	Dydd Mawrth 7 Mehefin 2016
16.	<p>Dyddiad Cau 5</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer cyfleu'r canlynol i'r AA:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymatebion i ail gwestiynau ysgrifenedig yr AA Sylwadau ar Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr ymgeisydd Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a geisir gan yr AA ac a dderbynnir cyn Dyddiad Cau 4 Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA o dan Reol 17 Rheolau'r Archwiliad 	12 hanner dydd Dydd Gwener 17 Mehefin 2016
17.	<p>Dyddiad Cau 6*</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer cyfleu'r canlynol i'r AA:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft terfynol yr ymgeisydd <p>*Dalier sylw: Ni fydd angen y dyddiad cau hwn os cynhelir gwrandawriadau ar eitemau 18 a 19</p>	12 hanner dydd Dydd Gwener 24 Mehefin 2016
18.	Amser a neilltuir ar gyfer gwrandawriad mater penodol (os oes angen)	Dydd Mercher 6 Gorffennaf 2016
19.	Amser a neilltuir ar gyfer gwrandawriad caffaeliad gorfodol (os oes angen)	Dydd Iau 7 Gorffennaf 2016
20.	<p>Dyddiad Cau 7*</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer cyfleu'r canlynol i'r AA:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dogfennau ôl-wrandawriad gan gynnwys unrhyw grynodedb ysgrifenedig o achos a wnaed ar lafar mewn unrhyw wrandawriad ac unrhyw ddogfennau/diwygiadau a geisir gan yr AA Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft terfynol yr ymgeisydd <p>*Dalier sylw: Os na chynhelir gwrandawriadau ar eitemau 18 a 19, ni fydd angen y dyddiad cau hwn</p>	12 hanner dydd Dydd Iau 14 Gorffennaf 2016
21.	Yr AA yn cyhoeddi:	Dydd

	<ul style="list-style-type: none"> Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr AA (os oes angen er mwyn hwyluso'r archwiliad) Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd <p>* Dalier sylw: Os na chynhelir y gwrandawiadau ar eitemau 18 a 19, y dyddiad cyhoeddi fydd</p> <p><i>Bydd baner ar dudalennau prosiect Glyn Rhonwy ar ein gwefan yn cael ei diweddarau ar y diwrnod hwn i gadarnhau bod y dogfennau wedi'u cyhoeddi.</i></p>	<p>Gwener 22 Gorffennaf 2016*</p> <p>Dydd Mawrth 5 Gorffennaf 2016</p>
22.	<p>Dyddiad Cau 8</p> <ul style="list-style-type: none"> Sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr AA Sylwadau ar yr adroddiad ar oblygiadau ar gyfer safleoedd Ewropeaidd Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a geisir gan yr AA ac a dderbynnir cyn Dyddiad Cau 7 Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA o dan Reol 17 Rheolau'r Archwiliad <p>* Dalier sylw: Os na chynhelir y gwrandawiadau ar eitemau 18 a 19, y dyddiad cau fydd</p>	<p>12 hanner dydd</p> <p>Dydd Mercher 3 Awst 2016*</p> <p>12 hanner dydd</p> <p>Dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2016</p>
23.	<p>Dyddiad Cau 9</p> <p>Dyddiad can ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymatebion i sylwadau ar Ochymyn Caniatâd Datblygu drafft yr AA Ymatebion i sylwadau ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd Sylwadau ar ymatebion i ail gwestiynau ysgrifenedig yr AA Sylwadau ar unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA ac a dderbynnir cyn Dyddiad Cau 8 Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA o dan Reol 17 Rheolau'r Archwiliad <p>* Dalier sylw: Os na chynhelir y gwrandawiadau ar eitemau 17 ac 18, y dyddiad cau fydd</p>	<p>12 hanner dydd</p> <p>Dydd Mercher 10 Awst 2016*</p> <p>12 hanner dydd</p> <p>Dydd Mawrth 26 Gorffennaf 2016</p>

24.	Mae'r Awdurdod Archwilio (AA) o dan ddyletswydd i gwblhau'r archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.	Dydd Iau 8 Medi 2016
-----	--	---------------------------------

Y cylch cyntaf o gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio

Cyhoeddir y cylch cyntaf o gwestiynau ysgrifenedig ar yr un pryd â'r llythyr hwn ond nid yw'n atodiad iddo. Gellir dod o hyd i'r cwestiynau ar ein gwefan:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3772905>

Os oes angen copi caled o'r cylch cyntaf o gwestiynau arnoch, cysylltwch ag aelod o'r tîm achos, a fydd yn postio copi atoch ar unwaith.